**Beirniadaeth y Fedal Ddrama 2015 – Gwefan**

**Coblyn Bach**
Mae'n amlwg bod gen ti glust am ddeialogi ac yn mwynhau chwarae gyda'r gystrawen theatrig a iaith (e.e. Pydrwn ymlaen!). Mae yna feddwl athronyddol, deallusol ar waith yma ac mae'r ddrama yn codi cwestiynau difyr am fywyd.
Ceir thema ddifyr yma yn cymharu cyflwr meddwl dyn ifanc a meddwl ei fam-gu ond ar hyn o bryd nid yw cweit yn cael ei ddramateiddio'n ddigon effeithiol. Pethau i'w hystyried: oes angen pob cymeriad? Heblaw am Rhun mae taith y cymeriadau eraill eithaf gwan; mae angen eu datblygu ymhellach. Nid yw Rhun ychwaith yn teimlo fel cymeriad actif iawn: mae eisiau mwy o ran tensiwn dramatig na'i ddirywiad meddyliol.

Mae'r gwrthdaro rhwng y naturiolaidd a'r elfennau mwy abswrdaidd yn ddifyr o ystyried cyflwr meddwl Rhun ac mae yna botensial i archwilio mwy o hyn. Mae hefyd yn anodd portreadu'r thema yma heb fynd yn rhy ddwys: oes mwy o hiwmor i'w ganfod? Mae'r diwedd hefyd braidd yn aneglur. Mae'r berthynas rhwng Rhun/Jac yn codi cwestiynau difyr ond mae angen dadbacio hyn ymhellach. Serch hynny, mae'n amlwg bod gen ti botensial fel dramodydd. Plîs, dalier ati!

**Atgofion Da** gan Seren Aur
Roedd y ddrama yma'n rhy fyr ar gyfer y gystadleuaeth ac yn teimlo mwy fel golygfa yn hytrach na drama. Mae angen mwy o densiwn ac mae'r cymeriadu ychydig yn arwynebol. Nid oes ychwaith digon o stori: mae pawb yn ymwybodol bod marw o gancr yn beth ofnadwy, felly mae angen i ddrama am y pwnc ddweud rhywbeth gwahanol, tra'n difyru cynulleidfa rhywsut! Mae'n glir bod gen ti ddiddordeb yn y ffurf felly byddem yn argymell i ti ddarllen mwy o ddramâu er mwyn dysgu mwy am hanfodion a gofynion y ffurf ddramatig.

**Ansh** gan Efa
Mae'n amlwg bod na feddwl mawr ar waith yma! Mae'n dechrau'n addawol: y deialog yn llifo a rhythm a thensiwn amlwg. Ti'n chwarae gyda iaith yn gywrain a ti'n ddramodydd barddonol sy'n gwybod sut i greu delweddau creadigol.

Y broblem yma, efallai, yw bod gormod o syniadau. Mae'r trosiadau/mytholegau gwahanol yn pentyrru nes drysu'r darllenydd/gynulleidfa ac mae'r ddrama yn boddi rhyw fymryn yn ei chlyfrwch ei hun. Nid ond gormod o falau dagith ddyn; mae gormod o syniadau yn medru tagu drama!

Ond paid â digaloni yma, llawer gwell cael gormod o syniadau na dim digon. Mae mytholeg hefyd yn lle da iawn i ddarganfod ysbrydoliaeth ond rhaid gwylio nad yw'r mytholeg yn tynnu sylw. Mae gen ti bethau mawr i'w dweud; mae angen nawr datblygu'r ffordd o ddweud gan fod gen ti botensial i greu gwaith cyffrous.

**Dim Clem**

Ti'n deall tensiwn dramatig ac mae gen ti reddf dda am dyndra emosiynol. Yn anffodus, nid oedd 'cyfrinach' Nain wrth Wil yn ddigon o ddatguddiad yn y pen draw. Ar un adeg roeddem ni'n meddwl bod yna gyfrinach ychwanegol; byddai hynny wedi bod yn fwy cyffrous!

Ychydig o bethau i'w hystyried: oes angen cymeriad y nyrs? Oes angen yr holl olygfeydd a'r holl gymeriadau? Ar brydiau, roedd yn teimlo'n agosach at script deledu.

Mae addewid yma'n sicr: ti'n deall gofynion drama, ond mae angen i ti ddysgu sut i'w plethu yn fwy celfydd i greu cyfanwaith sy'n argyhoeddi.

**Y cwestiwn** gan yr Hugan Fach Goch

Mae sefyllfa'r ddrama yma yn llawn tensiwn ac yn ein atgoffa o sawl ffilm arswyd gyfoes. Gwendid nifer o ddramodwyr wrth ddechrau sgwennu yw nad oes ganddynt ddigon o stori. Nid dyma'r achos yma! Mae gan bob cymeriad stori ddiddorol ofnadwy. Bron roeddem ni'n teimlo fel petai'n well i ti ganolbwyntio ar un ohonynt! Mae stori tad y ferch a dreisiwyd yn hynod o ddifyr, er enghraifft.

Roeddem hefyd yn teimlo bod moesoldeb beiblaidd y ddrama yn mynd yn y ffordd. Ar hyn o bryd mae yna wrthdaro rhyfedd rhwng byd 'abswrd' a chymeriadau mwy naturiolaidd. Bron bod eisiau gwthio'r ddrama i un ffordd neu'r llall: mae yna ddrama mwy abswrdaidd yn cuddio tu fewn iddi neu ddrama mwy naturiolaidd yn dyheu am gael dy sylw.

**Dyletswydd**
Dyma un o leisiau creadigol mwyaf aeddfed y gystadleuaeth. Roedd yna egni, tempo, a rhythm deinamig i'r sgwennu a meddwl bardd ar waith. Ti'n medru chwarae â geiriau a chreu delweddau yn rhwydd. Ond, rhaid gofyn, ai theatr yw'r cyfrwng cywir i adrodd y stori benodol yma? Roeddem ambell dro yn teimlo mai darn o ryddiaith oedd hi yn hytrach na monolog dramatig. Doedd dim digon, felly, i ddyrchafu'r script i'r grŵp buddugol, ond mae gen ti lais yr hoffem glywed mwy ohoni.

**Bocsys** gan gwdihŵ
Mae addewid yn sicr yma. Mae yna berthynas braf rhwng Delyth a Hari a themâu diddorol iawn wrth wraidd y ddrama. Er hyn, roedd y deialog ambell dro yn teimlo'n stiff a'r wybodaeth yn cael ei mynegi mewn ffordd braidd yn drwsgwl. Od iawn hefyd oedd cael flashback mewn ffilm ar ganol y ddrama: nid oedd hwn yn haeddu ei le. Roeddem hefyd yn teimlo bod y ddrama wedi gorffen yn rhy gyflym. Mae angen mwy o ddadbacio (!) ac archwilio'r perthnasau yn fwy dwfn. Mae yna deimlad nad yw'r ddrama na thaith Hari (a'i deimladau tuag at Delyth) wedi cyrraedd ei llawn botensial.

**Cysgod** gan Ffrenshi

Mae yma egni da i'r sgwennu ond roeddem yn teimlo nad oedd angen y ddelwedd drosiadol (y gegin) ar y ddrama. Roedd hefyd gormod o ddibyniaeth ar fonologau nad oedd yn symud y stori yn ei blaen ac roedd y cymeriadau yn teimlo ychydig yn arwynebol. Yn aml nid oedd digon yn digwydd mewn golygfa iddi haeddu ei lle ac roeddem yn crefu mwy o elfennau annisgwyl.

Mae'n amlwg bod gen ti glust at ddeialog a chymeriadu ond byddem yn argymell i ti ddarllen ychydig mwy o ddramâu er mwyn dod i ddysgu mwy am y ffurf theatrig.